

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

Chwefror 2022

1. Cefndir

Diben a chwmpas

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 (y Gyllideb Ddrafft) ar rai o'r meysydd polisi o fewn ein cylch gwaith. Nid yw'n fwriad i'r adroddiad fod yn sylwebaeth hollgynhwysfawr ar bob maes o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor ac mae'n canolbwyntio ar nifer llai o feysydd polisi allweddol a materion o ran proses a gafodd eu hystyried fel rhan o'r broses o graffu ar y Gyllideb.
- Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd, bwriedir i'r adroddiad hwn lywio dadl y Senedd ar y Gyllideb Ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 8 Chwefror.
- Byddem yn croesawu ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn a'i argymhellion.

Y dull craffu

- Y Prif Grŵp Gwariant (MEG) sydd o fewn ein cylch gwaith yw Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae ein cylch gorchwyl hefyd yn caniatáu inni ystyried polisi o safbwynt themâu trawsbynciol megis cydraddoldeb, hawliau dynol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Oherwydd cyfyngiadau amser, gwnaethom benderfynu peidio â mabwysiadu dulliau arloesol (fel cyllidebu ar sail rhywedd, neu sut i ddiogelu cyllideb ar sail tlodi a phenderfyniadau o ran gwariant) yn y rownd gyllideb ddrafft hon, er efallai y byddwn yn ystyried defnyddio'r rhain wrth graffu ar gyllidebau'r dyfodol. Roeddem yn falch o gael hyfforddiant ar graffu ar gyllidebau sy'n sensitif i gydraddoldeb fel rhan o'n gwaith paratoi.



5. Er mwyn llywio'r adroddiad hwn, gwnaethom ofyn am bapur tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru ar ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer craffu ar y gyllideb a chawsom ymateb ar 21 Rhagfyr 2022.
6. Roedd rhaglen y Pwyllgor Cyllid o gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu yn cynnwys 14 o grwpiau ffocws gyda 67 o gyfranwyr a chawsant eu cynnal gan y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus. Trafodwyd y crynodeb o sesiynau grwpiau ffocws a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law yn ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2022.
7. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS (y Gweinidog); a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn AS (y Dirprwy Weinidog) ar 24 Ionawr 2022.¹

2. Ystyriaethau o ran cydraddoldeb ym mhroses y Gyllideb Ddrafft

Mae'r adran hon yn ystyried sut y cafodd cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth lunio'r Gyllideb Ddrafft ac mae'n nodi ein barn ar sut y gellid gwella'r broses hon.

Proses y Gyllideb Ddrafft

8. Gosodwyd y Gyllideb Ddrafft ar 20 Rhagfyr 2021 a dywedodd Llywodraeth Cymru fod "cydraddoldeb wrth ei chalon".² Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn yr un modd yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau'r tegwch mwyaf i bawb ac i "ddileu anghydraddoldeb o bob math".³
9. Mae'r Gyllideb Ddrafft a'r Rhaglen Lywodraethu yn ymgorffori elfennau o'r Cytundeb Cydweithio y daethpwyd iddo rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru ym mis Tachwedd 2021.⁴

¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Ionawr 2022

² Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2022-23

³ Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu

⁴ Y Cytundeb Cydweithio: 2021 – 1 Rhagfyr 2021

10. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn bwriadu cynyddu gwariant ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru. Dyrannwyd £127 miliwn i'r adran sy'n cwmpasu Cyfiawnder Cymdeithasol, sy'n cynrychioli cynnydd o 21 y cant o gymharu â Chyllideb Derfynol 2021-22.⁵

11. Mae papur y Gweinidog yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal "proses adolygu newydd i gysoni'r gwariant â'r Rhaglen Lywodraethu newydd".⁶ Yn yr un modd, dywedodd y Gweinidog fod trechu tlodi yn un o'r themâu trawslywodraethol a lywiodd y gwaith o baratoi'r gyllideb.⁷

12. O ran ymgynghoriad cyhoeddus, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi "gwrando ar syniadau o bob rhan o fywyd cyhoeddus yng Nghymru" wrth baratoi'r Gyllideb.⁸

Asesiadau o Effaith y Gyllideb

13. Yn 2011-12, Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi asesiad manwl o effaith ei chyllideb ar gydraddoldeb. Yn 2015-16, cyfunwyd ystod o wahanol asesiadau effaith yn un Asesiad Effaith Integredig Strategol. Yn ystod y Bumed Senedd, cynhaliodd tri phwyllgor (Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol; Plant, Addysg a Phobl Ifanc; a Chyllid) sesiwn ar y cyd ym mis Tachwedd 2018 oherwydd pryderon parhaus ynghylch yr asesiad effaith.

14. Daeth yr adroddiad a ddeilliodd o waith craffu ar y cyd y Pwyllgorau i'r casgliadau a ganlyn:

- yn gyffredinol, mae'r dull integredig wedi gwanhau'r asesiad effaith;
- ymddengys bod yr asesiad cyfredol yn defnyddio cydraddoldeb, hawliau plant a ffactorau eraill fel ffyrdd o gyfiawnhau gwariant, yn hytrach na dangos sut y dylanwadodd y ffactorau hynny ar wneud penderfyniadau; ac
- "nid yw'r Asesiad Effaith Integredig Strategol cyfredol yn darparu dadansoddiad effeithiol o benderfyniadau gwario, a gellid dadlau ei fod yn methu â chyflawni ei ofynion deddfwriaethol o ganlyniad".⁹

⁵ Ymchwil y Senedd, [Dysgu rhagor am y gyllideb](#)

⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#) – 24 Ionawr 2022

⁷ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#) – 24 Ionawr 2022

⁸ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2022-23](#)

⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol](#) – Tachwedd 2018

15. Yn ei dystiolaeth, mynegodd Chwarae Teg siom ynghylch y cyfle cyfyngedig i gymdeithas sifil ymgysylltu â'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft wirioneddol ac mae'n parhau i bryderu ynghylch pwysigrwydd cymharol cydraddoldeb yn y broses o bennu'r gyllideb.¹⁰ Nodwyd nad yw'n ymddangos bod Asesiad Effaith Integredig Strategol 2022-23 yn addas i'r diben, a'i fod yn darllen fel cydnabyddiaeth o faterion a wynebier gan grwpiau penodol wedi'u datgysylltu oddi wrth unrhyw ymrwymadau neu gamau gweithredu sylweddol.¹¹

16. Yn yr un modd, galwodd Grŵp Cyllideb Menywod Cymru am weithredu Asesiad Effaith Integredig Strategol cryfach yn ystod y broses gyllidebol, gan nodi nad yw'r Asesiad yn dangos yn glir o hyd sut mae penderfyniadau gwariant yn mynd i'r afael ag amcanion penodol a pham mae'r penderfyniadau gwariant hynny wedi'u dewis dros eraill.¹²

17. Roedd Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn galaru am ddiffyg asesiad o'r effaith ar hawliau plant a dywedodd wrthym:

*"Ceir pum paragraff byr yn unig am blant yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, sy'n cynnwys cydnabyddiaeth agored bod y pandemig yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, ac yn golygu eu bod yn wynebu risg uwch o anawsterau iechyd meddwl ar hyd cwrs eu bywyd. Ac eto, ni ddywedir dim mwy am sut mae'r Gyllideb yn ei chyfanrwydd yn bwriadu lliniaru'r effaith honno, ac ni sonnir am hawliau plant ychwaith, na'u hystyried."*¹³

18. Gofynnwyd i'r Gweinidog ymateb i bryderon ynghylch yr Asesiadau Effaith Integredig Strategol. Cydnabu'r Gweinidog, er bod gwneud hyn yn iawn wedi cymryd amser roedd Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gael y wybodaeth a'r dystiolaeth orau i lywio'r broses gyllidebu.¹⁴ Eglurodd y Gweinidog ei bod yn gweld ei rôl fel un yn ymwneud yn fawr iawn â dylanwadu ar y Llywodraeth gyfan, o ran rhoi cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd cyllideb Llywodraeth Cymru a thynnodd sylw at nifer o gynlluniau peilot sy'n mynd rhagddynt y dadleuodd y byddent yn gwella'r data ac astudiaethau achos a ddefnyddir i lywio penderfyniadau.¹⁵

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, [Chwarae Teg WGDB 22-23.11](#)

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, [Chwarae Teg WGDB 22-23.11](#)

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, [Grŵp Cyllideb Menywod Cymru](#)

¹³ Gohebiaeth gan [Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch craffu ar y Gyllideb ar gyfer 2022-23](#) - 14 Ionawr 2022

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 9 – 24 Ionawr 2022

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 8-10 – 24 Ionawr 2022

Yr Uned Tystiolaeth a Data Cydraddoldeb

19. Roedd ein gwaith ar ddyled a'r pandemig yn tynnu sylw at yr angen i'r Llywodraeth ddatblygu data wedi'u dadgyfuno'n well. Mae gan yr 'Uned Tystiolaeth a Data Cydraddoldeb' arfaethedig ddyraniad cychwynnol o £1.695 miliwn a'i fwriad yw llywio "gwaith cynllunio strategol a chyllidebol a datblygu ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â meysydd lle mae anghydraddoldeb yn gwaethygu" ac mae'r broses recriwtio eisoes wedi dechrau.¹⁶

20. Pwysleisiodd y Gweinidog y rôl ehangach y mae'n gobeithio y bydd gan yr uned data cydraddoldeb¹⁷ wrth fesur effaith penderfyniadau ar ganlyniadau pob maes, gan leihau anghydraddoldebau cymdeithasol, iechyd, amgylcheddol ac economaidd.¹⁸ Mewn perthynas ag Asesiadau Effaith Integredig Strategol, roedd o'r farn y bydd hyn yn helpu i wella'r broses o gyflawni'r Asesiad oherwydd mae'n hollbwysig wrth fynd i'r afael â'r effeithiau hynny ar draws y Llywodraeth, ac yna gwneud yn siŵr y gellir edrych ar y canlyniadau.¹⁹

Nodau Llesiant

21. Mae papur y Gweinidog yn nodi sut "mae'r dyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Ddrafft hon yn cyd-fynd ag amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru sydd wrth wraidd y Rhaglen Lywodraethu i wneud y mwyaf o effeithiau'r cyllid sydd ar gael sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."²⁰ Roedd rhywfaint o'r naratif yn y meysydd polisi y craffwyd arnynt fel rhan o'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn dangos ac yn nodi'n glir sut maent yn cyd-fynd â'r nodau Llesiant (yr amlygir rhai enghreifftiau yn ddiweddarach lle bo'n berthnasol).

Cynllun Gwella'r Gyllideb

22. Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddarau. Mae'n cynnwys ymrwymiad i:

- ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella proses y gyllideb gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio;
- ehangu ei dull o gyllidebu ar sail rhywedd;

¹⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur y Gyllideb Ddrafft – 24 Ionawr 2022

¹⁷ Mae Uned Gwahaniaethau Hiliol yn rhan o'r Uned Tystiolaeth a Data Cydraddoldeb

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 123 – 24 Ionawr 2022

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 6 – 24 Ionawr 2022

²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur y Gyllideb Ddrafft – 24 Ionawr 2022

- buddsoddi £3 miliwn yn ychwanegol hyd at 2024-25 i wella tystiolaeth i asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol, gan gynnwys rhoi hwb i'r Arolwg Adnoddau Teuluol; a
- gwella'r model effaith ddosbarthiadol ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru.²¹

Cydraddoldeb o ran rhywedd

23. Yn ogystal â'r ymrwymiad i gyllidebu ar sail rhywedd yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb, mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys nifer o ymrwymïadau gwariant sydd wedi'u cynllunio i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Maent yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, i dalu am y cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ymestyn y ddarpariaeth i deuluoedd sydd â rhieni mewn addysg a hyfforddiant.²² Bydd dyraniad y gyllideb ar gyfer cymorth ar gyfer gofal plant a chwarae yn codi o £80.3 miliwn yn 2021-22 i £107.3 miliwn yn 2024-25.

24. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod y Llywodraeth wedi dyrannu £250,000 dros dair blynedd i weithredu adrannau o gynllun gweithredu cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac mae hefyd wedi ymrwymo i wario £6.8 miliwn dros dair blynedd i ymgorffori urddas mislif mewn ysgolion.²³

25. Fodd bynnag, roedd Chwarae Teg wedi galw am weithredu'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yn llawn, gan eu bod yn ystyried bod angen hyn er mwyn gweld cyllideb sy'n gwneud penderfyniadau sy'n sensitif i rywedd.²⁴

Ein barn ni

Er bod enghreifftiau o arfer da yn null Llywodraeth Cymru o fonitro ac asesu effeithiau amrywiol penderfyniadau cyllidebol, mae pryderon hirsefydlog ynghylch y diffyg manylion a ddarperir yn yr Asesiadau Effaith Integredig Strategol y mae angen mynd i'r afael â hwy. Er nad oes angen i hyn olygu dychwelyd at asesiadau effaith hirfaith 2012, mae angen rhagor o fanylion o ran sut mae'r anghydraddoldebau yn ein cymdeithas wedi llywio penderfyniadau cyllidebol. Credwn fod mwy y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i dawelu pryderon rhanddeiliaid. Rydym yn obeithiol

²¹ Llywodraeth Cymru, [Cynllun Gwella'r Gyllideb](#)

²² Llywodraeth Cymru, [Llinell Gwariant yn y Gyllideb 2022-23](#)

²³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 99-100 – 24 Ionawr 2022

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, [Chwarae Teg WGDB 22-23.11](#)

y bydd creu'r Uned Tystiolaeth a Data Cydraddoldeb – yr ydym yn ei chroesawu – yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny drwy wella ansawdd asesiadau effaith yn y tymor hwy.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol gyda'r bwriad o gyhoeddi cyfrif manylach o sut mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau, a bod Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi'i ddiweddarau yn cael ei osod gerbron y Senedd o leiaf ddau ddiwrnod cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol sydd wedi'i threfnu ar gyfer 8 Mawrth.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn galluogi cyrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector eraill i elwa ar ei gwaith, a'r data a gesglir, drwy ymrwymo i bolisi data ffynhonnell agored ar gyfer gwaith yr Uned Tystiolaeth a Data Cydraddoldeb.

Rydym yn croesawu'r ymrwymadau a wnaed yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb ynghylch ehangu dull y Llywodraeth o gyllidebu ar sail rhywedd. O ran ein dull ein hunain o graffu ar y gyllideb – byddwn yn ceisio adeiladu ar brofiadau eleni yn y cylchoedd cyllideb sydd i ddod.

Rydym hefyd yn cymeradwyo'r enghreifftiau a ddarparwyd o sut mae penderfyniadau gwariant yn y Gyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd yn ddefnyddiol bod defnyddio'r nodau llesiant wedi'i nodi'n glir fel adnodd tymor hwy yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb. Rydym yn gobeithio gweld cynnydd yn yr holl feysydd a nodir yn y Cynllun yn ystod tymor y Senedd ac edrychwn ymlaen at weld rhagor o fanylion maes o law.

Croesewir hefyd fesurau fel cyllid ychwanegol i fynd i'r afael ag urddas mislif. Fodd bynnag, mae angen tynnu sylw at y diffyg manylion cyffredinol fel rhan o'r broses gyllidebol bresennol ar sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu Adolygiad Chwarae Teg o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau (sy'n cynnwys 'Gweithredoedd nid Geiriau').

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd yn ariannu'r gwaith o weithredu'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol sydd wedi'i threfnu ar gyfer 8 Mawrth.

3. Materion o bwys o fewn ein portffolio

Mae'r adran hon yn amlygu rhai o'r materion o bwys yn ein portffolio a gododd yn ystod y broses o graffu ar y gyllideb. Nid yw pob maes y mae'r Pwyllgor yn ymdrin ag ef wedi'i gynnwys a bydd rhai pynciau'n cael eu datblygu mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy drafodaethau ehangach ar y flaenraglen waith.

Costau byw

26. Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft yn yr un mis ag y cofnododd y DU y ffigurau chwyddiant uchaf mewn deng mlynedd ar hugain, sef 5.4 y cant (ar gyfer y mynegai prisiau defnyddwyr).²⁵ Roedd y costau byw a ragwelir a'r cynnydd parhaus sydd ar ddod – a'r heriau y byddent yn eu hachosi i aelwydydd ac unigolion – yn faes pryder allweddol yn ystod ein hymchwiliad i ddyled a'r pandemig.

27. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys nifer o fesurau sydd â'r nod o helpu i liniaru caledi, gan gynnwys £1.7 miliwn ychwanegol i ehangu'r Gronfa Gyngori Sengl a gweithgareddau cynyddu incwm. Bydd y cyllid yn cynyddu capasiti cynghorwyr budd-daliadau lles a dyledion ac yn galluogi cyflwyno mentrau codi ymwybyddiaeth.²⁶

28. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £7 miliwn ychwanegol ym mhob blwyddyn rhwng 2022-23 a 2024-25 ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol. Roedd [ymateb y Gweinidog i adroddiad y Pwyllgor ar ddyled a'r pandemig](#) yn nodi bod y dyraniad cyffredinol ar gyfer 2022-23 yn is nag ar gyfer y naill neu'r llall o'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, a nododd:

"Er bod y swm hwn yn llai na'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol, mae'n dal i fod yn uwch na lefel y gyllideb cyn y pandemig, gan adlewyrchu'r effaith ariannol y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi ei chael ar unigolion a'u teuluoedd. Er y bydd y gyllideb yn llai, rwy'n ceisio sicrhau bod y gronfa yn cael cymaint o effaith â phosibl drwy ymgorffori system frysbenneu ac atgyfeiriadau at fathau eraill o gymorth er mwyn cael effaith tymor hwy ar

²⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Chwyddiant prisiau defnyddwyr y DU: Rhagfyr 2021](#)

²⁶ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#) – 24 Ionawr 2022

lesiant ariannol y rhai sy'n gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol, ac i wneud y gronfa yn fwy cynaliadwy."²⁷

29. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y cynnydd mewn costau byw, tynnodd y Gweinidog sylw at y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Gyngori Sengl fel adnoddau allweddol i frwydro yn erbyn y pwysau a achosir ar hyn o bryd gan chwyddiant.²⁸ Mewn perthynas â'r Gronfa Cymorth Dewisol, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dyraniad; fodd bynnag mae natur y gronfa sy'n cael ei harwain gan alw yn achosi anawsterau. Tynnodd y Gweinidog sylw at bwysigrwydd y cysylltiad rhwng y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Gyngori Sengl, gan fod cyngor a chymorth i'r rhai sy'n gwneud cais am y Gronfa yn cynnwys gwirio hawliau budd-daliadau eraill a chyngor ar achosion posibl eraill o ran problemau ariannol.

30. Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at dystiolaeth gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y bydd aelwydydd incwm isel yn wynebu gostyngiad mewn termau real o £290 mewn incwm budd-daliadau o ganlyniad i benderfyniad y Trysorlys i gysylltu codiad y flwyddyn nesaf â chyfradd chwyddiant ym mis Medi yn hytrach na mis Rhagfyr. O ganlyniad i hyn, mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at y Gweinidog cyfatebol, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, yn galw am godiad o 6 y cant i fudd-daliadau ym mis Ebrill eleni.²⁹

Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol

31. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys dyraniadau o £5 miliwn yn 2022-23, £10 miliwn yn 2023-24 a £5 miliwn yn 2024-25 i dalu costau cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol.³⁰ Eglurodd y Gweinidog mai diben y cynllun peilot oedd sicrhau bod pobl ifanc yn y cynllun peilot yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i roi'r cyfle gorau posibl iddynt wneud eu ffordd mewn bywyd.³¹

32. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol yn cyd-fynd â nodau llesiant 'Cymru o gymunedau cydlynus' a 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal'.³²

33. Un maes o ansicrwydd yw p'un a fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cydweithredu â Llywodraeth Cymru neu a fydd taliadau incwm sylfaenol gan Lywodraeth Cymru yn arwain at doriad cyfatebol mewn unrhyw daliadau a wneir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

²⁷ Llywodraeth Cymru, [Ymateb i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol](#) – 5 Ionawr 2022

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 58-60

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 58-60

³⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#) – 24 Ionawr 2022

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 63 – 24 Ionawr 2022

³² Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Papur y Gyllideb Ddrafft](#) – 24 Ionawr 2022

Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i geisio cydweithrediad â'r Adran Gwaith a Phensiynau ond bod y manylion eto i'w cwblhau. Gellid disgwyl cyhoeddiad yn yr wythnosau nesaf.³³

34. Ym Mhwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 8 Rhagfyr 2021, clywodd y Pwyllgor Materion Cymreig dystiolaeth gan Lywodraeth y DU am y system fudd-daliadau yng Nghymru, gan gynnwys ar y cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol. Dywedodd swyddog Gweinidog Cyflenwi Lles Llywodraeth y DU wrth y Pwyllgor Materion Cymreig fod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad i drafod y cynllun peilot, ond bod angen rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru cyn y gall Llywodraeth y DU benderfynu sut y byddai'r cynllun peilot yn rhyngweithio â'r systemau treth a budd-daliadau.³⁴

Gwariant ataliol

35. Cyllideb 2019-20 Llywodraeth Cymru oedd y gyllideb gyntaf gyda diffiniad cyffredin o wariant ataliol. Roedd gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ddiddordeb mewn gwariant ataliol a nododd fod "llawer o'r drafodaeth wedi canolbwyntio ar fewnbynnau, yn hytrach na chanlyniadau ac effaith".³⁵

36. Roedd y cyfranwyr i'r grwpiau ffocws yn gyffredinol yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wariant ataliol ond yn teimlo bod angen dangos tystiolaeth, blaenoriaethu, cefnogi ac ariannu hyn (yn y Gyllideb).³⁶

37. Mae enghreifftiau o wariant ataliol yn cynnwys y dyraniad o £31 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft i atal digartrefedd. Mae hyn yn rhannol i gefnogi awdurdodau lleol gyda chost llety dros dro brys sydd ei angen o ganlyniad i'r pandemig.³⁷

38. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch sut mae'r Llywodraeth yn mesur effeithiolrwydd gwariant ataliol (er enghraifft yng nghyd-destun anghydraddoldeb iechyd) cydnabu y gallai hyn fod yn eithaf heriol ond ychwanegodd y byddai gan yr uned data cydraddoldeb rôl allweddol wrth gasglu data a monitro effaith ar draws y Llywodraeth.³⁸

³³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 65-68 – 24 Ionawr 2022

³⁴ Y Pwyllgor Materion Cymreig, [Tystiolaeth Iafar: Y system fudd-daliadau yng Nghymru](#), 8 Rhagfyr 2021, C252

³⁵ Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, [Cyllideb Ddrafft 2020-21](#)

³⁶ [Crynodeb o sesiynau'r grwpiau ffocws](#)

³⁷ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2022-23](#)

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 121-123 – 24 Ionawr 2022

Ein barn ni

Daw'r Gyllideb hon ar adeg dyngedfennol i bobl yng Nghymru gyda llawer yn wynebu cyfres o heriau economaidd y cyfeiriodd ein hadroddiad diweddar ar ddyled atynt fel "storm berffaith". Mae costau byw cynyddol yn debygol o daro cartrefi ledled y wlad wrth inni ddod allan o'r pandemig, gyda'r mwyaf difreintiedig yn debygol o wynebu'r caledi mwyaf. Er ein bod yn cydnabod yn llwyr nad yw llawer o'r ysgogiadau i frwydro yn erbyn caledi posibl, yn enwedig treth, lles a budd-daliadau, wedi'u datganoli, mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig ac angenrheidiol yn y maes hwn. Disgwylwn felly i Lywodraeth Cymru barhau i ystyried yr amgylchiadau economaidd ehangach a'r pwysau ariannol ar unigolion a chartrefi wrth gwblhau ei chynlluniau gwariant, a hefyd asesu pa feysydd y gallai fod angen eu blaenoriaethu neu eu hailflaenoriaethu yn y misoedd sydd i ddod. Rydym hefyd yn ailadrodd yr angen i Lywodraeth Cymru barhau i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, ac am ddull strategol o fynd i'r afael â thlodi ar draws pob maes gweithgarwch datganoledig.

O'n rhan ni, mae dau faes sylweddol o'n gwaith hyd yma wedi bod â dimensiwn trechu tlodi pwysig iddynt a gobeithiwn barhau yn hynny o beth fel rhan o'n gwaith ar dlodi tanwydd.

Argymhelliad 4. Mewn ymateb i gyfraddau chwyddiant cynyddol, y mae Banc Lloegr yn disgwyl y byddant yn gorfod ymdopi â hwy yn ystod y misoedd nesaf, dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu dyraniadau a gynlluniwyd i helpu i liniaru tlodi (megis y Gronfa Cymorth Dewisol a'r Gronfa Gynghori Sengl) ar gyfer y tlotaf a'r mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas a dylai flaenoriaethu a/neu ailflaenoriaethu cyllid yn ôl yr angen.

Rydym yn bryderus ynghylch y posibilrwydd y gallai'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol a'i fudd i Gymru gael ei danseilio gan doriad gwrthbwysol i unrhyw daliadau budd-daliadau a wneir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i dderbynwyr sy'n rhan o'r cynllun peilot.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i ddod o hyd i ateb pragmatig lle nad yw Cymru ar ei cholled yn ariannol ac sy'n galluogi'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol i ddigwydd. Rydym yn annog y ddwy lywodraeth i wneud hyn ar ran y bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, gan mai eu helpu hwy yw diben y cynllun peilot yn y pen draw

Rydym yn croesawu'r pwyslais ar wariant ataliol sydd yn y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, mae anawsterau wrth fesur effaith a chanlyniadau penderfyniadau gwariant yn effeithiol yn debygol o rwystro ymdrechion i dargedu adnoddau prin. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn comisiynu

gwaith ymchwil a chyngor annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd gwariant ataliol. Dylai'r gwaith hwn dynnu ar arfer gorau ac enghreifftiau rhyngwladol a dylai ddod i ben cyn i broses y Gyllideb ar gyfer 2023-24 ddechrau ym mis Rhagfyr eleni.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil a chyngor annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd ac effaith y mesurau gwariant ataliol. Dylai'r gwaith hwn dynnu ar arfer gorau ac enghreifftiau rhyngwladol a dylai ddod i ben cyn i broses y Gyllideb ar gyfer 2023-24 ddechrau ym mis Rhagfyr eleni.

4. Materion eraill

Ariannu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

39. Ni yw'r Pwyllgor cyntaf i gael Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan benodol o'i gylch gwaith. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi galw am ailasesu ei chyllideb yn sgil lefel y cymorth sydd ei angen i newid diwylliant y sector cyhoeddus, ac mae wedi tynnu sylw at y gwahaniaeth mewn cyllid rhwng ei swyddfa hi a swyddfa Comisiynwyr eraill ar sawl achlysur.

40. Mae papur y Gweinidog yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn Amcangyfrif o Gyllideb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 2022-23 ar 29 Hydref 2021. Mae'n amlinellu hwn fel cais cyllideb sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan swyddogion a fydd yn cynghori'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn ei gylch erbyn canol mis Ionawr 2022. £1.509 miliwn oedd cyllideb y Comisiynydd yn 2021-22, ac mae'n parhau i fod yr un fath ar hyn o bryd ar gyfer 2022-23.

Cyllid ar gyfer Comisiynwyr eraill

41. Yn yr un modd â sylwadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ysgrifennodd y Comisiynydd Plant atom (a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg) i fynegi pryderon ynghylch ei dyraniad cyllideb sefydlog, gan nodi:

"Y ffigur yr aseswyd ei fod yn angenrheidiol er mwyn i'r sefydliad barhau i weithredu yn ystod y flwyddyn nesaf oedd £1,695,765, sy'n gadael diffyg o £115,765 yn y flwyddyn ar sail y £1,580,000 a gynigir. Gyda 'chyllideb wastad' yn cael ei chynnig ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn ogystal, mae hyn yn

cyflwyno her sylweddol i gynaliadwyedd ariannol a pherfformiad y sefydliad yn ei fformat presennol.”³⁹

Ein barn ni

Dim ond yn ddiweddar yr ydym wedi cytuno ar ddull o graffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n debygol o olygu deialog rheolaidd rhwng swyddogion a phatrwm o sesiynau craffu blynyddol lle gallwn ystyried rhai o'r materion a godwyd ym mhroses y Gyllideb Ddrafft yn fanylach. Mae ein sesiwn graffu gyntaf gyda'r Comisiynydd ar 7 Chwefror, a gallwn ddefnyddio'r cyfle hwnnw i drafod ei phryderon ynghylch dyraniadau cyllid.

Gan fod pryderon y Comisiynydd Plant yn torri ar draws ein portffolio ni a phortffolio'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – rydym wedi cytuno ar lythyr ar y cyd at y Gweinidog gan ein Cadeiryddion priodol yn gofyn am ymateb i bryderon penodol y Comisiynydd ac am sicrwydd ar y ffordd ymlaen.

³⁹ Gohebiaeth gan Comisiynydd Plant Cymru ynghylch craffu ar y Gyllideb ar gyfer 2022-23 - 14 Ionawr 2022
